

rspb
yn rhoi
cartref i
fyd natur

# Hwyaden Lwcus





Stori gan Derek Niemann
Darluniau gan Anthony Rule.

# Hwyaden Lwcus







Roedd Hwyaden yn padlo rownd a rownd y pwll yn teimlo’n hapus iawn.
“Rydw i wir yn perthyn yma,” meddai wrtho’i hun yn uchel. “Mi alla i nofio gyda ’nhraed mawr gweog. Mi alla i lowcio’r chwyn dŵr gyda fy mhig mawr llydan.”
Gallai Hwyaden weld ei adlewyrchiad yn y dŵr. “Rydw i mor lliwgar!” chwarddodd. “Mae ’mhen i’n wyrdd, mae ’mhig yn felyn. Mae ’ngwddf yn frown a ’nhraed yn” – cododd un droed allan o’r dŵr i weld – “oren!  Am hwyaden lwcus ydw i.”

Yna, daeth Deryn du, Robin Goch a Titw Tomos Las draw ato. Teimlodd Hwyaden drueni drostynt. "Druan ohonot ti Deryn du," meddai. "Dwyt ti ddim yn lliwgar o gwbl. Dim ond plu du a phig melyn sydd gen ti."

"Falle wir," meddai Deryn du. "Ond rwy'n gallu canu." Eisteddodd ar glwyd, agor ei big a chanu a chanu a chanu. Ceisiodd Hwyaden ganu fel Deryn du, ond yr unig beth allai o wneud oedd sŵn cwac bach tila.



Edrychodd Hwyaden ar ei ffrind Robin Goch. "Dyna frest goch hyfryd sydd gen ti, Robin," meddai Hwyaden. "Ond mae gen i big mawr llydan i fwyta fy mwyd. Dim ond pig pitw bach sydd gen ti." "Falle wir," meddai Robin Goch. "Ond gyda fy mhig bychan siarp, rwy'n gallu dal chwilod bychan bach."
A chyda hynny, herciodd Robin ar hyd y llawr a phigo






chwilen mor gyflym cyn i neb weld beth oedd yna. Llyncodd Robin y chwilen gyda LLOWC uchel! Ceisiodd Hwyaden ddal y chwilod chwim, ond roedd yn rhy araf. Waeth sawl gwaith yr agorai ei big mawr llydan, llwyddai'r chwilod i redeg i ffwrdd.



Edrychodd Hwyaden i fyny ar ei ffrind Titw Tomos Las, oedd yn eistedd yn y goeden. "Am ben glas llachar sydd gen ti Titw Tomos las. Ac mae dy fron mor felyn â blodyn ymenyn," meddai Hwyaden. "Ond druan â thi, rwyt ti mor fychan, a dy draed mor bitw. Allet ti byth nofio'n gyflym rownd y pwll fel fi."



"Falle wir," meddai Titw Tomos Las. "Ond edrych beth alla i wneud." Hedfanodd Titw Tomos Las yr holl ffordd i bendraw'r brigyn lleiaf un ar y goeden. Ac yna, hongian a'i ben i waered gerfydd ei draed.

Pigodd bryfyn bach oedd yn cuddio y tu ôl i'r ddeilen. "Alli di wneud hynna?" gofynnodd i Hwyaden. Neidiodd Hwyaden i lanio ar frigyn tenau yn union fel Titw Tomos Las. Ond roedd yn llawer rhy drwm. I lawr â fo a disgyn i'r pwll gyda SBLASH anferth!





"Wel," meddai Hwyaden, wrth i ddiferion lifo i lawr ei big i'r dŵr gyda phlop, plop, plop. "Ro'n i'n meddwl mod i'n hwyaden lwcus. Ond rydych chi i gyd yn gallu gwneud pethau clyfar na alla i ddim. Felly mae'n rhaid bod hynny'n golygu ein bod i gyd yn lwcus."

A chyda hynny, i ffwrdd â'r ffrindiau i chwarae.





RSPB, The Lodge, Sandy, Bedfordshire SG19 2DL. Rhif ffôn: 01767 680541 rspb.org.uk/youth



Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, yn Yr Alban SC037654. 040-1-2223-16-17